Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Henry Richard
# Tregaron
# Ceredigion
# SY25 6HG

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Henry Richard

Mae Ysgol Henry Richard yn ysgol 3-16 oed ddwyieithog sy'n gweithredu ar draws tri champws. Sefydlwyd yr ysgol ym Medi 2014, ac mae'n gyfuniad o ysgolion cynradd Llanddewi Brefi a Thregaron ac Ysgol Uwchradd Tregaron. Yn dilyn cyfnod fel pennaeth dros dro er Ionawr 2016, penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2017. Fe'i cefnogir gan ddirprwy dros dro a thri phennaeth cynorthwyol.

Disgwylir i'r ysgol gael ei lleoli ar un safle erbyn Medi 2018. Mae disgyblion o ysgolion cynradd eraill y dalgylch yn trosglwyddo i'r sector uwchradd ym Mlwyddyn 7, yn bennaf o ysgolion cynradd Rhoshelyg a Phontrhydfendigaid. Mae 302 o ddisgyblion ar y gofrestr, 131 yn yr adran gynradd a 171 yn yr adran uwchradd.

Mae bron pob disgybl yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae 57% yn siarad Cymraeg gartref ac mae 88% o'r disgyblion yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae 7.2% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17% ar gyfer ysgolion uwchradd ac 19% ar gyfer ysgolion cynradd. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn byw o fewn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae 52% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys 8% o ddisgyblion gweithredu ysgol a mwy. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn dechrau gwireddu ei weledigaeth ar gyfer ysgol gydol oes sydd yn ganolbwynt i’w chymuned. Craidd y weledigaeth hon yw datblygu ethos o gydweithio agos er mwyn cynnig profiadau addysgol cyfoethog i ddisgyblion.

Mae’r ysgol yn gymuned glòs, gynhwysol a Chymreig. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i’r ysgol ac yn mwynhau’r ystod eang o brofiadau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol a gynigir. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith gref a chadarnhaol gyda’r disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda gan ddangos parch a gofal at eu cyfoedion ac eraill. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio eu gwersi yn fanwl ac yn cynnig cyfleoedd priodol, ar y cyfan, i ddisgyblion ddatblygu eu medrau pynciol.

Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth symud drwy’r ysgol. Yng nghyfnod allweddol 4, fodd bynnag, nid yw cyflawniad disgyblion yn cymharu’n ffafriol â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill dros y tair blynedd diwethaf.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau dilyniant yn natblygiad medrau disgyblion, yn enwedig rhifedd

A3 Gwella'r addysgu fel bod anghenion yr holl ddisgyblion yn cael eu diwallu, o ran gallu ac iaith

A4 Gwella ansawdd yr asesu fel bod disgyblion yn gwella eu gwaith wrth ymateb i adborth penodol gan athrawon

A5 Mireinio a miniogi gweithdrefnau prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Digonol ac angen gwella

Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth symud drwy'r ysgol. Yng nghyfnod allweddol 4, fodd bynnag, nid yw cyflawniad disgyblion yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill dros y tair blynedd diwethaf.

Mewn ychydig o wersi, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd arbennig. Maent yn dwyn i gof wybodaeth flaenorol yn hyderus ac yn cymhwyso eu medrau'n effeithiol iawn i'w dysgu newydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn ystyried yn llwyddiannus ffactorau tynnu a gwthio wrth drafod y rhesymau dros fudo o Fecsico i'r Unol Daleithiau mewn gwers ddaearyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn lleiafrif o wersi. Yn y gwersi hyn, nid yw'r disgwyliadau'n ddigon uchel ac nid yw athrawon yn cynnig digon o her i'r disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd effeithiol o oed cynnar. Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar athrawon a chyfoedion ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol yn llwyddiannus yn sgil hynny. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig. Er enghraifft, mae'r disgyblion ifancaf yn argyhoeddi wrth egluro pam nad ydynt yn hoffi'r eira a'r tywydd gaeafol achos ei bod yn rhy oer i fynd allan i chwarae. Wrth symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n siaradwyr dwyieithog huawdl a rhugl, er enghraifft wrth rannu eu canfyddiadau am nodweddion cymeriadau'r nofel, Of Mice and Men, ac wrth ddadansoddi effaith technegau ffilmio yn y ffilm, Y Mynydd Grug. Mae gan fwyafrif y disgyblion afael gadarn ar gystrawen naturiol yr iaith Gymraeg, gan gynnwys elfen gref o dafodiaith. Fodd bynnag, mae geirfa lleiafrif ohonynt yn gyfyngedig yn y Gymraeg pan fyddant yn dadansoddi a thrafod materion mwy cymhleth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cryf. Maent yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn synhwyrol o oed cynnar gan roi mynegiant priodol i'r testun. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu strategaethau darllen i ddadansoddi a gwerthfawrogi ystod o destunau amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwahaniaethu rhwng ffaith a barn wrth drafod y wisg ysgol, a disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn cymharu testunau gwrthgyferbyniol ar fanteision ac anfanteision ailgylchu.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cymwys ar draws yr ysgol. Maent yn sillafu ac atalnodi'n gywir, ar y cyfan. Mae eu cystrawen yn gywir, gan amlaf, ac maent yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol. Mae'r mwyafrif yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn cyflwyno eu gwaith yn daclus ac yn drefnus yn eu llyfrau. Maent yn ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol yn y ddwy iaith, er enghraifft yng nghyfnod allweddol 2 wrth ysgrifennu bywgraffiad o Walt Disney yn Saesneg a llythyr dychmygus o fwrdd llong yr Atlantic Queen yn y Gymraeg. Mae ychydig o ddisgyblion uwch eu gallu yn datblygu'n ysgrifenwyr annibynnol a hyderus ac yn arbrofi â chyweiriau iaith a dyfeisiau fel amrywio hyd brawddegau er mwyn creu effaith. Serch hynny, nid yw disgyblion yn gyffredinol yn ysgrifennu'n ddigon estynedig ar draws y cwricwlwm ac i'r un safon ag yn eu gwersi iaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn gymwys i adio, tynnu, rhannu a lluosi rhifau o fewn cyd-destunau penodol, er enghraifft wrth gyfnewid arian mewn gwlad dramor. Maent yn llunio graffiau'n llwyddiannus i arddangos gwybodaeth mewn gwersi y tu allan i fathemateg yn ogystal. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon hyderus ar draws y cwricwlwm mewn sefyllfaoedd llai strwythuredig.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu, cywain gwybodaeth o'r we a thrin data'n effeithiol; er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn creu cronfa ddata lwyddiannus sydd yn cynnwys gwybodaeth am yr Unol Daleithiau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio TGCh at ddibenion creadigol yn y gwersi tecstilau. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, maent yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel iawn trwy greu darluniau ar y thema, Indiaid America, a'u trosglwyddo i ffabrig.

Mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn sylweddol is na'r perfformiad cyfartalog mewn ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf.

Mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn is na pherfformiad ysgolion tebyg. Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 5 TGAU gradd A*-A neu gyfwerth wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n arwyddocaol is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad bechgyn wedi gostwng yn sylweddol dros y tair blynedd diwethaf yn y rhan fwyaf o ddangosyddion o'i gymharu â bechgyn mewn ysgolion tebyg. Dros amser, mae bechgyn a merched yn perfformio'n is na'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 gradd TGAU A*-C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae pob disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gefnogol a chynhwysol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn mwynhau'r ystod eang o brofiadau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol a gynigir. Maent yn uniaethu â'r ethos gofalgar a chynhaliol sy'n bodoli yn yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Teimlant fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion prin o fwlio a chamymddwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol ac maent yn datblygu'n ddysgwyr hyderus.

Mae gan ddisgyblion ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain. Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gwrtais a serchog tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae medrau cymdeithasol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hynod aeddfed. Maent yn rhyngweithio'n arbennig gydag eraill gan arddangos cynhesrwydd a hiwmor tuag at eu cyfoedion ac oedolion fel ei gilydd.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n effeithiol mewn ystod eang o weithgareddau, er enghraifft mewn sesiynau addysg

gorfforol rheolaidd ac wrth gystadlu mewn gemau cyfeillgar yn erbyn ysgolion eraill. Mae tua hanner disgyblion cyfnodau allweddol 3 a 4 yn cymryd rhan mewn chwaraeon tîm allgyrsiol a drefnir gan yr ysgol yn wythnosol. Mae'r llysgenhadon chwaraeon yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol wrth annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, er enghraifft y clwb tenis bwrdd yn neuadd yr ysgol bob amser cinio.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd ac atgyfnerthir hyn yn llwyddiannus mewn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyngor digidol.

Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu dysgu eu hunain yn gadarn. Maent yn dangos cymhelliant yn eu gwaith ac yn ymroi i'w tasgau'n ddiwyd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad llawer o ddisgyblion.

Mae'r disgyblion yn chwarae rôl weithredol yng ngwaith a phenderfyniadau'r ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y dewisodd y disgyblion enw a gwisg i'r ysgol newydd. Mae'r pwyllgor Cymreictod yn dechrau cael effaith gadarnhaol wrth hybu'r defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg, er enghraifft trwy sefydlu gorsaf radio'r ysgol, Radio Rocio Richard. Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. O ganlyniad, llwyddodd y cyngor i greu cod ymddygiad i'r ysgol sy'n cael effaith bositif ar safonau lles ac ymddygiad bron pob un o'r disgyblion. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn dechrau gwneud penderfyniadau addas mewn perthynas â'u dysgu. Fodd bynnag, cyfyng yw rôl y disgyblion hyd yn hyn wrth lywio eu dysgu eu hunain a datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion goddefgar a chyfrifol. Maent yn trefnu nifer o weithgareddau elusennol a dyngarol sydd yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal taith gerdded flynyddol er budd Ymchwil Cancr Cymru sydd wedi creu cysylltiad agos a buddiol rhwng yr ysgol a'r elusen.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn ddigonol ac angen gwelliant.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith gref a chadarnhaol gyda'r disgyblion. Canlyniad hyn yw bod disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ym mron pob gwers. Ym mwyafrif y gwersi, mae staff cynorthwyol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr gan gynnig cymorth a chynhaliaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau iaith cryf yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r mwyafrif ohonynt yn dysgu'n fedrus yn y ddwy iaith. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio'r Gymraeg fel y prif gyfrwng addysgu, gan gyfieithu geirfa ac ymadroddion allweddol i'r Saesneg yn ôl yr angen heb amharu ar lif y wers. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yr un mor grefftus wrth ddysgu'n ddwyieithog. Mae hyn yn llesteirio gallu disgyblion i drin a thrafod testunau mwy heriol yn y Gymraeg.

Mae gan lawer o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion trwy gyfrwng amrediad eang o weithgareddau dilynol. Mae'r mwyafrif yn cynllunio eu gwersi yn fanwl ac yn cynnig cyfleoedd priodol, ar y cyfan, i ddisgyblion ddatblygu eu medrau pynciol. Mae adran y Gymraeg, er enghraifft, yn cynllunio'n ddyfeisgar drwy baratoi her sydd yn gofyn i ddisgyblion ganfod, ar sail cyfres o gliwiau, pwy yw'r Cymry amlwg sy'n dod am bryd o fwyd i'r ystafell ddosbarth.

Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon bwriadus nac yn teilwra gweithgareddau yn ddigon medrus er mwyn bodloni anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar annibyniaeth a chreadigrwydd disgyblion. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn caniatáu digon o amser i ddisgyblion drafod eu syniadau a'u cyflwyno ger bron y dosbarth cyfan.

Mae mwyafrif yr athrawon yn holi eu disgyblion yn fedrus ac yn eu hysgogi i gyflwyno atebion estynedig ar lafar. Maent yn cylchu'r dosbarth yn effeithiol yn ystod gwersi er mwyn cynnig cyngor gwerthfawr ar lafar i ddisgyblion. Mewn ychydig o achosion, mae'r athrawon yn oedi ar adegau allweddol er mwyn gwirio dealltwriaeth y disgyblion yn bwrpasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig cadarn i ddisgyblion. Mae sylwadau lleiafrif o athrawon yn rhy arwynebol a chanmoliaethus ac nid ydynt yn rhoi digon o gyngor na chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr ar draws yr holl gyfnodau dysgu. Mae trefniadau creadigol a hyblyg ar waith ac mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o lwybrau dysgu sydd yn diwallu eu diddordebau a'u galluoedd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda darparwyr allanol, ysgolion cyfagos a cholegau lleol er mwyn diwallu anghenion gyrfaol bron pob disgybl, er enghraifft drwy gynnig cwrs achredig mewn gwaith gof. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn y cyrsiau hyn ac i weithio ar ffermydd ac mewn siop trin gwallt leol yn cefnogi ffocws cryf yr ysgol ar gyflogadwyedd ac yn cryfhau'r cyswllt cymunedol.

Mae'r ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen yn cynnig cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan athrawon a disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau a gynigir bob tro'n sicrhau y caiff holl egwyddorion y cyfnod sylfaen eu gweithredu. Er enghraifft, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau disgyblion yn yr ardal tu allan. Nid yw gweithgareddau yn yr ardaloedd bob tro'n cynnig digon o her i ddisgyblion wrth iddynt weithio'n annibynnol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth gynhwysfawr o weithgareddau llwyddiannus y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae ymweliadau addysgol fel y teithiau tecstilau a chelf i Gaerfaddon a Phortmeirion yn cynnig syniadau ymarferol gwerthfawr i'r disgyblion. Caiff y cwricwlwm amaeth ei gyfoethogi'n effeithiol iawn trwy gyfrwng ymweliadau â nifer o golegau addysg bellach.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Sicrheir cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ffocws ar lafaredd a darllen wedi cael effaith gadarnhaol ar feithrin siaradwyr huawdl a darllenwyr hyderus yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i gryfhau medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn gyfyngedig. Mae darpariaeth TGCh yr ysgol yn datblygu'n gadarn. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth gogyfer â datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn anghyson, a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu gwybodaeth.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir o ran meithrin disgyblion dwyieithog sydd yn ymfalchïo yn eu treftadaeth Gymreig ac yn ymwybodol o'r diwylliant Cymraeg cyfoes. Mae ganddi drefniadau effeithiol iawn ar gyfer disgyblion sy'n ymuno â'r cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 heb fawr ddim cymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg. Maent yn cynnig cyfle gwerthfawr iddynt ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg ac yn darparu sylfaen ieithyddol gadarn iddynt fedru cyfranogi'n llawn yn eu haddysg ddwyieithog a manteisio ar y profiadau a gynigir. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glòs, gynhwysol a Chymreig ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn ganolog i'w holl waith. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda gan ddangos parch a gofal at eu cyfoedion ac eraill.

Mae gan yr ysgol adnabyddiaeth dda iawn o'i disgyblion ac mae'n darparu'n effeithiol ar gyfer anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion bregus. Er enghraifft, mae'r defnydd a wneir o'r Encil a'r Hafan yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu medrau bywyd y disgyblion hyn ac yn hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm yn ogystal.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ystod o asiantaethau er mwyn sicrhau lles a diogelwch disgyblion, er enghraifft wrth gefnogi eu hanghenion ymddygiad a ieithyddol. Caiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys fel rhan o drefniant buddiol sydd yn atgyfnerthu'r berthynas â'r asiantaethau hyn.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol â rhieni sydd yn seiliedig ar arferion cyfathrebu rheolaidd a chlir. Er enghraifft, gwneir defnydd effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol i ddathlu llwyddiannau disgyblion yr ysgol ac i gefnogi'r broses o sefydlu ysgol gydol oes trwy greu un gymdeithas rhieni ac athrawon. Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau tymhorol addas i rieni. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi darlun clir o ymroddiad disgyblion i'w gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfeirio'n ddigion miniog at safonau cyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn i adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac i sicrhau cefnogaeth bwrpasol iddynt. Mae gan y disgyblion hyn gynllun addysgu unigol defnyddiol sydd yn cynnwys strategaethau addas i fodloni eu hanghenion. Caiff y targedau eu llunio ar y cyd gan ddisgyblion ac athrawon ac adolygir cynnydd yn rheolaidd gyda rhieni. Nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio'r cynlluniau addysg unigol yn ddigon bwriadus er mwyn cynnig y lefel gywir o her mewn gwersi.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn addas er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Nid yw'r ysgol wedi bod yn ddigion miniog wrth arfarnu effaith ac addasrwydd yr holl ymyraethau ac nid ydynt wedi arwain at wella medrau rhifedd na chodi cyflawniad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

Mae’r ysgol yn trefnu rhaglen gynhwysfawr o addysg bersonol a chymdeithasol sy’n cyfrannu’n werthfawr at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae pwyslais amlwg yn yr ysgol ar hybu gwerthoedd cytûn ac mae’r disgyblion yn elwa’n fawr ar gyfleoedd pwrpasol i dderbyn arweiniad ar faterion fel e-ddiogelwch, goddefgarwch diwylliannol a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae’r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o effaith dewisiadau ar eu ffordd o fyw a’u hiechyd. Caiff iechyd corfforol ei hyrwyddo’n gyson trwy gyfrwng ystod o weithgareddau allgyrsiol apelgar; er enghraifft, mae cyfraddau uchel iawn o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon tîm a drefnir gan yr ysgol. Mae trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymuno â gwahanol glybiau, fel y clwb ukelele, ac i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol. Mae hyn wedi arwain at lwyddiant i’r ysgol mewn cystadlaethau cerddorol a chreadigol ac mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae’r ysgol yn paratoi disgyblion yn dda gogyfer â’r cam nesaf yn eu haddysg neu ar gyfer byd gwaith. Er enghraifft, mae’r cyfleoedd i ddisgyblion dderbyn profiad gwaith ar ffermydd ac mewn siop trin gwallt leol yn gryfder ac yn sicrhau ymgysylltiad â’r gymuned leol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae’r pennaeth yn dechrau gwireddu ei weledigaeth ar gyfer creu ysgol bob oed sydd yn gonglfaen i’w chymuned. Craidd y weledigaeth hon yw datblygu ethos o gydweithio agos er mwyn cynnig profiadau addysgol cyfoethog i ddisgyblion. Rhennir y weledigaeth yn effeithiol ymysg holl randdeiliaid yr ysgol. Mae presenoldeb amlwg aelodau’r uwch dîm arwain ar bob campws yn hyrwyddo’r weledigaeth o weithredu fel tîm i sicrhau llwyddiant yr ysgol fel un gydol oes.

Yn gyffredinol, mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi’u diffinio’n glir ac mae staff yn gweithredu eu rolau’n gydwybodol. Mae’r ysgol wrthi’n ailstrwythuro cyfrifoldebau i sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn fwy clir wrth i’r tri champws presennol adleoli ar yr un safle.

O fewn cyfnod cymharol fyr, mae arweinwyr wedi sefydlu ystod eang o weithdrefnau defnyddiol sy’n rhoi darlun cyfredol a chywir o lawer o gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn canolbwyntio’n addas ar wella elfennau o’r ddarpariaeth a safonau disgyblion, er enghraifft wrth ddatblygu cwricwlwm ysgogol yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws mewn cyfarfodydd ar arfarnu ansawdd ac effaith y ddarpariaeth ar wella safonau ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi creu calendr o weithgareddau hunanarfarnu a phrosesau sicrhau ansawdd defnyddiol. Maent yn cynnwys dadansoddiadau o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau a chyfleoedd buddiol i ddisgyblion, staff a rhieni leisio eu barn. Caiff y rhain eu gweithredu’n gyson ac mae holl randdeiliaid yr ysgol ynghlwm â’r broses. Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais wrth arsylwi gwersi a

chraffu ar lyfrau ar farnu safonau, medrau a chynnydd disgyblion er mwyn gwella eu perfformiad. Nid ydynt ychwaith yn canolbwyntio digon ar farnu ansawdd yr addysgu.

Mae cysylltiad addas rhwng deilliannau gweithdrefnau monitro a'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r adroddiad yn sylfaen ddechreuol i arweinwyr allu adnabod arfer dda ac i adnabod agweddau ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn crynhoi'r holl wybodaeth sydd ar gael yn ddigon effeithiol. Er enghraifft, nid yw'r adroddiad yn ystyried sut mae perfformiad presennol yr ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg yn ddigon manwl. Nid yw ychwaith yn arfarnu'r rhesymau dros y deilliannau isel yng nghyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae cysylltiad addas rhwng y meysydd i'w gwella yn yr adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae arweinwyr wedi dewis y prif faterion datblygu yn ddoeth ac maent wedi rhoi ar waith gamau synhwyrol i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, mae gormod o flaenoriaethau ac nid ydynt yn ddigon penodol i arwain at wella agweddau pwysig yn ddigon cyflym. Mae'r cynllun, yn gyffredinol, yn cynnwys meini prawf llwyddiant priodol. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu bob tro'n ddigon penodol a miniog i alluogi staff i ddeall y strategaeth ysgol gyfan. Nid oes cerrig milltir addas i fesur cynnydd yn erbyn y prif flaenoriaethau.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw dyledus i ddatblygu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu'r Gymraeg i sicrhau bod y disgyblion yn gadael yr ysgol yn gwbl ddwyieithog.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant ble mae pwyslais clir ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod cyfleoedd cyfoethog i'r holl staff ehangu a mireinio eu gwybodaeth broffesiynol trwy raglen o weithgareddau hyfforddiant. Mae'r rhain yn gyfleoedd i staff wneud arsylwadau traws sector er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o fethodoleg y gwahanol gyfnodau dysgu. Mae llawer o'r staff yn rhannu arfer dda a'u gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus trwy redeg gweithdai o fewn yr ysgol ar themâu amrywiol, gan gynnwys agweddau ar ddatblygu y fframwaith cymhwysedd digidol. Mae rhaglen gyfoethog o hyfforddiant wedi ei threfnu i gefnogi rheolwyr i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithlon.

Mae llywodraethwyr teyrngar ac ymroddgar wedi chwarae rôl allweddol wrth uno ysgolion i sefydlu'r ysgol gydol oes. Drwy dderbyn gwybodaeth berthnasol gan y pennaeth ynglŷn â data perfformiad a thrwy ymweliadau rheolaidd, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar safonau. Mae eu rôl wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn datblygu'n briodol.

Mae arweinwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn effeithiol ac yn cynllunio gwariant ar gyfer y dyfodol yn graff. Gwneir defnydd gwerthfawr o'r grant datblygu disgyblion ar gyfer gwella medrau disgyblion drwy raglenni ymyrraeth pwrpasol. Mae'r defnydd o'r grant i geisio gwella presenoldeb disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu presenoldeb.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2018